

Canolfan Addysg Y Bont



Polisi Cydraddoldeb Hiliol

Polisi Ysgol ar Gydraddoldeb Hiliol ac Amryfaliaeth Diwylliannol

Yn ystod eu bywydau, bydd pobl ifanc yn debygol iawn o gyfarfod a rhyngweithio â phobl eraill o amrywiol gymunedau, ac o ddiwylliannau a chefnidiroedd gwahanol. Yn y cyd-destun hwn, mae gan ysgolion ran bwysig iawn i'w chwarae wrth gynyddu dealltwriaeth, meithrin parch a gwerthfawrogiad disgyblion o'r gwahaniaeth diwylliannol sydd rhyngom fel pobloedd a chenhedloedd.

Mae'r Ysgol hon yn croesawu ei dyletswyddau cyfreithiol o dan y ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Rydym wedi ein hymrwymo i:

- Hybu cyfleoedd cyfartal;
- Hybu perthynas dda rhwng aelodau o wahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol;
- Dileu gwahaniaethau anheg o bob ffurf.

Egwyddorion arweiniol

Wrth gyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol a restrir uchod, fe'n harweinir dair egwyddor allweddol:

- Dylai pob disgybl gael cyfleoedd i gyrraedd y safonau uchaf posibl, a'r cymwysterau gorau posibl ar gyfer camau nesaf eu bywydau a'u haddysg.
- Dylid cynorthwyo pob disgybl i ddatblygu synnwyr o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n hyderus ac yn agored i newid, ac sy'n barod i dderbyn a pharchu hunaniaethau eraill.
- Dylai pob disgybl ddatblygu'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn cymdeithas aml-ethnig Ewropeaidd.

Polisiau ac arfer ysgol

Rydym yn sicrhau fod yr egwyddorion a restrir uchod yn berthnasol i'r ystod lawn o bolisiau ac arferion sydd gennym, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â:

- Cynnydd, cyrhaeddiad ac asesiad disgyblion
- Ymddygiad, disgyblaeth a gwaharddiadau
- Datblygiad personol a gofal bugeiliol disgyblion
- Addysgu a dysgu
- Mynediad a phresenoldeb
- Cynnwys y cwricwlwm
- Recriwtio a datblygiad proffesiynol staff
- Partneriaethau gyda rhieni a chymunedau.

Delio â hiliaeth

Mae'r ysgol yn gwrthwynebu hiliaeth o bob ffurf, gan gynnwys y ffurfiau hynny sydd wedi eu hanelu at grwpiau a chymunedau crefyddol.

Cyfrifoldebau

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol dros sicrhau fod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bod y polisi hwn a'i drefnau a strategaethau perthnasol yn cael eu gweithredu.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi; sicrhau fod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cael hyfforddiant a chefnogaeth briodol; ac yn cymryd camau addas mewn achos o wahaniaethu anghyfreithlon.

Disgwylir i bob aelod staff ddelio â digwyddiadau hiliol allai godi; i wybod ac adnabod a herio tuedd hiliol a diwylliannol a stereoteipio; cefnogi disgyblion yn eu dosbarth sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol; ac i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amryfaliaeth i mewn i bob agwedd o'u gwaith.

Rhoi polisiau ar waith

- Bod y cwricwlwm yn tynnu ar gefndiroedd diwylliannol a phrofiadau'r holl ddisgyblion ac arfogi disgyblion i adnabod, i herio ac i ddelio â hiliaeth, rhagfarnau a stereoteipiadau.
- Y manteisir ar sgiliau, profiad ac arbenigedd pobl o gymunedau lleiafrifol lleol er mwyn cyfoethogi cwricwlwm yr ysgol.
- Yr edrychir yn fanwl ar gyfansoddiad grwpiau, setiau a ffrydiau o ddisgyblion er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chydbwysedd hiliol.
- Yr archwilir unrhyw ddeunyddiau asesu cyn eu defnyddio rhag ofn eu bod yn cynnwys deunydd sy'n ddiwylliannol anaddas.
- Y cydnabyddir anghenion ieithyddol ac addysgol plant sy'n meddu ar fwy nag un iaith.
- Bod athrawon yn manteisio ar bob cyfle i gydweithio wrth gynnal a gweithio gyda disgyblion unigol (e.e. athrawon dosbarth yn gweithio'n agos gydag athrawon cynnal iaith).
- Bod adnoddau'r dosbarth yn caniatau i ddisgyblion o grwpiau ethnig gael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm.
- Bod delweddau cadarnhaol o bobl o grwpiau ethnig amrywiol a'u cefndiroedd diwylliannol, yn cael eu harddangos o fewn yr ysgol.
- Y gosodir tasgau sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau gwahanol ac sy'n gyson yn herio rhagfarnau a stereoteipiadau.
- Bod rheolaeth dosbarth yn cynnwys camau cadarnhaol i sicrhau bod parch ac ymddiriedaeth yn datblygu rhwng disgyblion o wahanol grwpiau ethnig.

- Yr anogir disgyblion o wahanol grwpiau ethnig i gydweithio â'i gilydd yn naturiol o fewn yr ystafell ddosbarth.

Gwybodaeth ac adnoddau

Rydym yn sicrhau fod pob aelod staff yn gwybod beth yw cynnwys y polisi hwn, a hefyd fel bo'n addas, pob disgybl a rhiant.

Bydd pob aelod staff yn cael mynediad at adnoddau sy'n trafod ac yn egluro cysyniadau cydraddoldeb hiliol ac amlryfaliaeth diwylliannol mewn manylder addas.

Cadwraeth Grefyddol

Rydym yn parchu credoau ac arferion crefyddol pob aelod o staff, disgybl a rhiant ac yn cyd-fynd â dymuniadau rhesymol sy'n ymwneud ag ymlyniad ac arferion crefyddol.

Torri'r Polisi

Fe ddelir â thorri'r polisi hwn yn yr un modd ag y delir â thorri polisiau eraill yr ysgol, fel a benderfynir gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Monitro ac arfarnu

Rydym ni'n casglu, astudio a defnyddio data meintiol sy'n perthnasu â gweithrediad y polisi hwn, ac yn gwneud newidiadau fel bo'n addas.

Mabwysiadwyd y polisi Medi 2022

Arwyddwyd (Cadeirydd y Llywodraethwyr) Mr Peter Davies OBE

Arwyddwyd (Pennaeth) Mr Andreas Huws